

# **papur**



# **priorddy**



**DYMA FEIBL ANNWYL IESU,  
DYMA RODD DEHEULAW DUW;  
DENGYS HWN Y FFORDD I FARW,  
DENGYS HWN Y FFORDD I FYW;**

*Caneuon FFydd 198*

*Casgliad T Owen, 1820 Priodolir i: Richard Davies, 1795-1826*

*Dewiswyd gan Gladwen Meredith*

*Gweler ei rheswm dros ei dewis y tu mewn*

**Rhifyn 312**  
**PAPUR MEHEFIN 2018**

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## CYFARFODYDD!

**CYFARFODYDD.** Rydym yn dwlu ar eu cynnal!

Byddaf yn dod o ambell gyfarfod yn meddwl pam yn y byd ydw i wedi eistedd yno am ddwy awr. Pam na allwn i wedi bod gartref yn gwneud rhywbeth llawer mwy adeiladol?! Ond dof o ambell gyfarfod arall wedi fy ysbrydoli a hyd yn oed fy nghodi i'r uchelfannau. Ac nid ymdeimlad o wastraff amser yn sicr oedd yn fy meddwl wrth yrru adref o Dre-lech ar 10 Mai eleni.



Tro **Capel y Graig, Tre-lech** oedd derbyn Cyfarfodydd Chwarterol Capeli Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Wedi cwrdd busnes ffrwythlon yn y prynhawn, a digon o wled yn Neuadd y Pentref, dyma setlo lawr (yn llawn sgons a bara brith!) ar gyfer cyfarfod yr hwyr, yn barod i wrando ar ein

siaradwr gwadd, **Wynford Ellis Owen**.

Bydd rhai ohonom yn ei gofio ar Teliffant fel *Syr Wynff ap Concord y Boss*, gyda'i gyfaill Mici Plwm! Ond er ei ymddangosiad doniol, gwyddom fod ochr ddifrifol o drist i'w fywyd.



Ers pan oedd yn blentyn roedd wedi arbrofi gyda chyffuriau gan ddwyn meddyginiaethau ei fam ac o aelodau eglwys ei dad. Fel oedolyn bu'n gaeth i alcohol a valium. Cafodd driniaeth am ddibyniaeth yng nghanolfan Rhoserchan yn Aberystwyth a bu'n sobr er 22 Gorffennaf 1992. Graddiodd mewn Cwnsela Dibyniaeth yn 2008 ac ar 1 Hydref 2008 cychwynnodd weithio fel Prif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill.



Datblygodd ganolfan gymunedol **Stafell Fyw Caerdydd** i gefnogi pobl gyda dibyniaeth ar gyffuriau yn ardal Caerdydd. Agorwyd y ganolfan yn 2011. Ymddeolodd o Stafell Fyw Caerdydd ar 31 Awst 2017 er ei fod am barhau i weithio rhan amser ar gynlluniau i agor canolfannau Stafell Fyw yng Nghaerfyrddin a Chaernarfon.

Cafwyd anerchiad hollol wefreiddiol ganddo yn

Nhre-lech: "S'neb yn berffaith. Sut mae derbyn hynny?" Esboniodd sut mae derbyn ein cyflwr yn allweddol i ddeffroad ysbrydol a gweld y byd a bywyd mewn ffordd fwy gonest a chyflawn.

Dyma ambell ddyfyniad:

*Mae dibyniaeth yn broblem ysbrydol. Datrysiad ysbrydol sydd i broblem ysbrydol. Mynn rhai chwilio am Deyrnas Nefoedd mewn cyffuriau ayyb a dod o hyd i ddatrysiad dros dro. Pobl sydd wedi colli 'nabod ar eu hunain yw'r rhain. Nid poen corfforol, emosiynol a meddyliol yw'r broblem fwyaf ond tlodi ysbrydol. Cam i adferiad ydy cam o ddod i'ch nabod chi eich hunain. Dyna ydy'r allwedd i ysbrydolrwydd yr amherffaith - dyna sydd ar waith yn yr Ystafell Fyw. Pobl sy'n derbyn eu hamherffeithrwydd. Rhaid dysgu'r wers bod angen cofleidio ochr ddu'r enaid. Mae hyn yn beth anodd i'w wneud. The way out is in. Mae'r sawl sy'n gaeth yn byw **mewn** ofn. Yn greiddiol i'r cyfan mae ofn marwolaeth.*

*Mae sawl genedigaeth mewn bywyd. Rhaid i'r bersonoliaeth 'authentic' gael ei eni. Rhaid gadael mnd i'r 'attachments'. Wynebwn groesffordd a phenderyfnu a ydym yn aros gyda'r cyfarwydd neu'n gadael mynd, ac yn mynd gyda'r ysbrydol. Os ydych am adfer, nid yw arian na phethau materol eraill yn mynd i'ch helpu. Yr unig ffordd y medrwn fynd ar y daith yw drwy ollwng gafael. Mae adferiad yn golygu gadael fynd ar gyffuriau, alcohol a phopeth arall sydd wedi cydio ynom.*

*Ysbrydolrwydd yr amherffeithrwydd sydd ar waith yn yr Ystafell Fyw. Ysbrydolrwydd sydd yn cyffwrdd â phob agwedd o'ch bywyd, neu dyw e ddim yn gweithio. Nid yw'n credu mewn twyll hud a lledrith (fel diod) ond mae'n credu mewn dirgelwch a gwyrthiau. Mae'n ddirgelwch sy'n rhaid ei ailgreu bob diwrnod o'r newydd. Mae'n golygu edrych ar ochr ddu'r enaid a derbyn eich hunan yn gyfan gwbl. 'Derbyn' yw'r ateb i broblemau. Caiff yr adict drafferth i wneud hynny. Yn aml iawn, dim ond dioddefaint sy'n mynd i'w helpu. Hunanladdiaeth yw dibyniaeth. Ni wêl y sawl sy'n ddibynnol unrhyw bwrpas i fywyd. Y gyfrinach yw canu deuaud, Duw a fi.*

Mae profiadau sy'n newid bywydau yn cymryd lle yn y Stafell Fyw. Yn greiddiol i'r cyfan mae gwyleidd-dra. Rhoi rhywbeth sy'n golygu'r byd a'i roi am ddim. Yn yr Ystafell Fyw, rhoddir bywyd yn ei gyfanrwydd i bawb y mae ei eisiau arno. Mae dynion a merched yn cael eu bywydau wedi'u rhoi'n ôl at ei gilydd yn y Stafell Fyw.'

**DIOLCH** am anerchiad cwbl ysbrydoledig, a diolch i Dduw am drawsnewid profiadau mwyaf isel pobl a'u dyrchfau'n gyfryngau effeithiol i'w gariad a'i ras.

## Gweddiwn

O Grëwr pob goleuni, tyn ni yn ôl i lewyrch dy bresenoldeb.  
O Grëwr pob rhyw harddwch, tro ni yn ôl ar hyd llwybrau dy ddaioni.  
O Grëwr pob enaid, adnewyddu ni yn ôl dy lun a'th ddelw dy hun.  
Yna daw gobaith newydd i'n cynnal yn y man lle rydym  
A daw grym dy atgyfodiad i'n codi i fywyd newydd,  
Oherwydd Crist a gyfododd – Atgyfododd yn wir.  
Halelwia!



**Amen**

Gweddi o wefan [www.livingroom-cardiff.com](http://www.livingroom-cardiff.com).



## DARLLENIADAU



| Mis       | Darlleniad    |
|-----------|---------------|
| Wythnos 1 | Salm 81: 1-10 |
| Wythnos 2 | Salm 138      |
| Wythnos 3 | Salm 20       |
| Wythnos 4 | Salm 9: 9-20  |

## DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

**DAVID A HEFINA LLOYD**

ac

**EIRLYS JONES**

a

**DIENW**

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

## LLONGYFARCHIADAU!

Ein llongyfarchiadau mawr fel Gofalaeth i'n Gweinidog, Y Parchedig Beti-Wyn James, ar ei hethol gan yr eglwysi a'r aelodau personol yn Ddarpar-Lywydd nesaf Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.



Mae'r penodiad hwn nid yn unig yn fraind i Beti-Wyn ond hefyd i ni fel Gofalaeth.

Ymfalchiwn yn llwyddiant ein Gweinidog a dymunwn bob rhwyddineb iddi yn y swydd bwysig hon.

Ar ran yr Ofalaeth

Marlene Jones, Ysgrifennydd Cana  
Joanne Richards, Ysgrifennydd Bancyfelin  
Alun Charles, Ysgrifennydd y Priordy



## DYMUNIADAU DA

Ein dymuniadau da i'r Parchedig Dyfrig Rees, Pen-y-bont ar Ogwr ar ei benodi'n Ysgrifennydd Cyffredinol nesaf Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn dilyn ymddeoliad y Parchedig Ddr Geraint Tudur.

Pob llwyddiant iddo wrth y gwaith

## DYMA'R UNDEB

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Rhifyn 49 Gwanwyn 2018

Copiâu yn y Cyntedd ar gyfer eu dosbarthu ymhlith yr aelodau



# **GWAHODDIAD ARBENNIG I'N GWEINIDOG**



Derbyniodd ein Gweinidog wahoddiad gan Weinidogion, Diaconiaid ac Aelodau Eglwys Gymraeg Melbourne i arwain y gwasanaethau arbennig i ddathlu sefydlu pen-blwydd yr eglwys yn 165 oed ar 15 Gorffennaf 2018.



Cafodd gefnogaeth unfrydol i dderbyn y gwahoddiad yng Nghyfarfod Diaconiaid a Blaenoriaid yr Ofalaeth a gynhaliwyd ychydig yn ôl.

Mae'r eglwys Gymraeg ym Melbourne yn gwahodd gweinidog o Gymru atynt ar Sul y dathlu bob pum mlynedd a daeth y fraint i Beti-Wyn ymuno â nhw'r tro hwn.

Erbyn hyn mae trefniadau i'n Gweinidog bregethu ar ddau Sul. sef 15 a 22 Gorffennaf. Bydd Elin a Sara'n canu yn yr oedfa ar y Sul cyntaf.

Mae'r trefniadau'r ymweliad yn golygu y bydd ein Gweinidog gyda ni yn yr Ofalaeth ar Ddydd Sul 1 Gorffennaf ac yna'n dychwelyd atom ar Ddydd Sul 29 Gorffennaf.

Dymunwn yn dda i Beti-Wyn a'i theulu ar y daith arbennig hon gan hyderu y cânt amser wrth fodd calon. Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog hefyd i Eglwys Gymraeg Melbourne ar gyrraedd y garreg filltir arbennig hon yn ei hanes.

Yn ystod absenoldeb ein Gweinidog, gofynnwn yn garedig i chi gysylltu ag Ysgrifenyddion Eglwysi'n Gofalaeth yn y lle cyntaf, os gwelwch yn dda, os oes unrhyw fater y mae angen sylw iddo'n codi.



# AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**  
**Cyfarfodydd Blynyddol 2018 - Cyfundeb Ceredigion**  
**Neuadd Goffa Aberaeron SA46 0DP**

**DYDD MERCHER - 6 MEHEFIN**

|      |                                                       |
|------|-------------------------------------------------------|
| 1.00 | Cynhadledd 1<br>Defosiwn – Y Parchedig D Andrew Lenny |
| 5.00 | Te Croeso – Gwesty'r Plu, Aberaeron                   |

**DYDD IAU - 7 MEHEFIN**

|       |                                                                                 |
|-------|---------------------------------------------------------------------------------|
| 10.00 | Cynhadledd 2                                                                    |
| 2.00  | Cynhadledd 3                                                                    |
| 4.00  | Fforwm Agored yr Undeb                                                          |
| 7.00  | Oedfa o Fawt – Capel y Tabernacl, Aberaeron<br>Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor |

**DYDD GWENER - 8 MEHEFIN**

|       |                                                                                                                                   |
|-------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 10.00 | Gwibdaith Leol neu Ffilm                                                                                                          |
| 2.30  | Oedfa'r Llywydd Newydd<br>Y Parchedig Jill-Hailey Harries                                                                         |
| 8.00  | Cyflwyniad gan Aelodau a Chyfeillion Eglwysi<br>Cyfundeb Ceredigion<br>Y Freuddwyd<br>Canolfan Celaeron, ger Neuadd-lwyd SA48 7RG |

**DYDD SADWRN - 9 MEHEFIN**

|       |                                                                                                                                                 |
|-------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 10.0  | Defosiwn – Dr Dafydd Tudur                                                                                                                      |
| 19.15 | Cystadleuaeth Cwpan Denman a Thylsau Cyfundeb Lerpwl                                                                                            |
| 11.30 | Lansio Apêl Madagascar                                                                                                                          |
| 2.00  | Oedfa Ddathlu – Capel y Tabernacl<br>Deucanmlwyddiant Glaniad y Cenhadon o Gymru ym<br>Madagascar<br>Pregeth Y Parchedig Ddoethur Noel A Davies |
| 7.30  | Cyngerdd Dathlu<br>Amrywiol Artistiaid o Gymru a Madagascar                                                                                     |

**CROESO CYNNES IAWN I'R CYFARFODYDD AC I'R DATHLIADAU**



## **Cyflwynir y Cynigion Canlynol gan eglwysi Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr sydd i'w cynnal yn Aberaeron yn ystod Mehefin**

### **1. Nwyddau Masnach Deg**

Mae aelodau Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin wedi nodi gyda phryder bod nifer y nwyddau Masnach Deg sydd ar gael yn yr archfarchnadoedd ac yn ein siopau lleol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar ben hyn, daeth yn amlwg bod sawl cynnyrch masnachol oedd yn arfer bod â marc y Sefydliad Masnach Deg (Fairtrade Foundation) arnynt bellach yn cael eu gwerthu heb warant y cynllun.

### **PENDERFYNIAD**

Nodwn gyda phryder fod nifer y nwyddau Masnach Deg sydd ar gael yn yr archfarchnadoedd ac yn ein siopau lleol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar ben hyn, daeth yn amlwg bod sawl cynnyrch masnachol oedd yn arfer bod â marc y Sefydliad Masnach Deg arnynt bellach yn cael eu gwerthu heb warant y cynllun.

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn galw ar siopau bychain a mawrion Cymru i sicrhau bod y nwyddau a werthir ganddynt sy'n dod o wledydd sy'n datblygu wedi'u cynhyrchu mewn ffordd sy'n deg i'r gweithwyr a'u cymunedau. Credwn os nad yw'n nwyddau'n rhai marchnad deg, mae'n debyg eu bod yn rhan o farchnad annheg sy'n ecsbloetio pobl dlawd ein byd. Er mwyn sicrhau tegwch, mae'n hanfodol bod y cynnyrch wedi'i gymeradwyo gan y Sefydliad Masnach Deg (Fairtrade Foundation) ac wedi derbyn ei farc. Dyma'r unig farc dilys sy'n sicrhau mwy o'r elw i'r cynhyrchwyr. Mae hefyd yn sicrhau gwell amgylchiadau gwaith i'r gweithwyr, cyfran o elw'r cynnyrch i sicrhau addysg i blant a gofal iechyd i gymunedau, tra ar yr un pryd yn atal llafur plant i ddod â'r cynnyrch i ni.

Rydym yn ymrwmo i annog ein heglwysi i addo o'r newydd i ddefnyddio nwyddau Masnach Deg ac i ymgychu dros degwch mewn masnach ar draws ein byd. Cydnabyddwn ein rhan yn y gyfundrefn annheg sy'n manteisio ar dlodi eraill. Galwn ar y cynhyrchwyr a'r siopau i ehangu ystod y nwyddau a werthir ganddynt y mae'r Masnach Deg (Fairtrade Foundation) arnynt, ac ar Fasnach Deg Cymru ([fairtradewales.com/we/](http://fairtradewales.com/we/)) i wneud arolwg o'r siopau sydd yn cefnogi Masnach Deg yng Nghymru.

**Cynigydd: Y Parchg Aled D. Jones Eilydd: Y Parchg Tom Defis**

## 2. Dysgu hanes yn Ysgolion Cymru

Ym mis Chwefror 2018 cyflwynwyd deiseb i Lywodraeth Cymru, wedi'i llofnodi gan fwy na 5,000 o bobl, yn galw arnynt i newid y Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn dysgu hanes Cymru o bersbectif Cymreig yn ein hysgolion cynradd, uwchradd a'r chweched dosbarth. Cytunwn â hyn, gan fod dyfodol ein cenedl yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar ddeall, gwerthuso a dehongli'n gorffennol – y bobl a'r digwyddiadau sydd wedi llunio Cymru heddiw.

### PENDERFYNIAD

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg o'r farn fod angen i bobl Cymru ddysgu mwy am hanes ein gwlad a chyfraniad ein pobl yn rhyngwladol. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hanes mewn ysgolion a cholegau yn cael ei ddysgu o safbwynt Cymreig. Yn benodol:

- Hanes lleol sy'n tystio i gyfnodau ac i newidiadau ar hyd y canrifoedd
- Hanes datblygiad ein cenedl, gan gynnwys effaith y dylanwadau allanol
- Dylanwad a chyfraniad llesol ac andwyol Cymru a Chymry ar hanes rhyngwladol

Rydym hefyd am weld mwy o sylw'n cael ei roi i'r datblygiadau a'r digwyddiadau crefyddol sydd wedi cyfrannu gymaint at greu cymeriad ein cenedl.

Wrth i Lywodraeth Cymru drosi gweledigaeth Adroddiad Donaldson (*Dyfodol Llwyddiannus*, 2015) yn realiti, rhaid sicrhau bod ei gyfeiriadau brith at 'Ddimensiwn Cymreig' yn cael eu gwreiddio yn y maes llafur hanes. Bydd hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwrmpas fel dinasyddion o Gymru, yn ogystal â'r byd.

**Cynigydd: Y Parchg Aled D. Jones Eilydd: Y Parchg Beti-Wyn James**



Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr  
Gorllewin Caerfyrddin?

Trowch at: [cyfundeb.com](http://cyfundeb.com)?



## TUDALEN BLAEN

### Rheswm Gladwen Meredith dros ddewis *Dyma Feibl annwyl Iesu...*

Cofio sefyll ar ben sêl yn dweud y pennill uchod a hynny ar yr adeg pan oedd plant yn dweud adnod. Tipyn o gamp ar ôl '*Duw Cariad Yw!*'



Fe'm ganwyd ym medrwm ffrynt Tŷ Capel **Engedi** ynghanol tref Caernarfon sy'n fy ngwneud yn 'Gofi-dre' go iawn! Fe'm magwyd yn annwyl iawn ar aelwyd Gristnogol a hollol Gymraeg ei hiaith, yn un o bedwar o blant – dwy chwaer, lola a Nerys, a fy niweddar frawd Dewi. Mae'r teulu i gyd yn byw yng Nghaerdydd erbyn hyn. Ni ddeallodd fy mam na fy nhad sut y daethom ill pedwar i fyw yn y 'Sowth'.



Fe symudais i fyw i Lundain yn ifanc ac yn Grays Inn Road, **Clwb Cymry Llundain**, y gwnes i gwrdd â Malcolm (sy'n wreiddiol o Aberdâr). Fe'n priodwyd yn **Ebeneser**,



Caernarfon, gan y Parchedig Gwilym Tilsley, gan mai Wesla mawr oedd fy mam ac mor falch o'i dau frawd, sef y diweddar Barchedig Geraint W Parry, Tywyn, awdur llawer o lyfrau Cymraeg, a'r Parchedig Cledwyn Parry, Dinbych.



Daeth y cyfle i symud yn ôl i Gymru a chael gwaith yn y DVLA. Yn wir, fe gafodd Malcolm ei anrhydeddu gyda'r OBE tra oedd yn gweithio yn y Ganolfan Drwyddedu Ceir. Fe fuon ni yn y DVLA am ddeuddeg mlynedd cyn ymddeol ac wedi mwynhau byw yn Abertawe'n fawr iawn.

Rydw i'n fam i dri o blant, sef Gwenda, Siwsan a William ac yn nain falch i chwech o wyrion.

**ON: Diolch i Gladwen am y darn hwn. Mae'n ddiddorol nodi mai mewn ystafell yng Nghapel Engedi Caernarfon ym 1856 y trafodwyd am y tro cyntaf yng Nghymru y posibilrwydd o sefydlu Gwladfa Gymreig ym Mhatagonia.**

# CENEDL FASNACH DEG

**AR 6 MEHEFIN 2008**, ddeng mlynedd yn ôl i'r mis hwn, y daeth Cymru'n Genedl Fasnach Deg gyntaf y byd.

Roedd hynny'n dilyn ymgyrch ddwy flynedd gan Fforwm Masnach Deg Cymru, a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i sicrhau bod digon o gynhyrchion Masnach Deg ar gael mewn trefi, dinasoedd a siroedd ledled Cymru, ac i annog ysgolion, busnesau a sefydliadau eraill i gefnogi Masnach Deg.

Rhydaman yn Sir Gâr oedd y dref gyntaf yng Nghymru i'w phenodi'n Dref Fasnach Deg yn 2002. Ymhen ychydig wedyn daeth Wrecsam yn Sir Fasnach Deg gyntaf Cymru a'r byd. Ac yna daeth Caerdydd yn brifddinas gyntaf Masnach Deg Cymru a'r Byd.



Cadarnhawyd Cymru'n Genedl Fasnach Deg y Byd yn 2008 gan Banel annibynnol o arbenigwyr mewn materion Masnach Deg. Derbyniwyd cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yna Gynulliad Cenedlaethol Cymru a phob un o'r 22 awdurdod unedol. Cytunodd pob un i ddefnyddio te a choffi Masnach Deg yn eu cyfarfodydd.



Daeth Sir Gâr yn Sir Fasnach Deg am y tro cyntaf yn 2007. Ym mis Rhagfyr 2017 cynhaliwyd Bore Coffi yn adeilad Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr yng Nghaerfyrddin i ddathlu adnewyddu Statws Masnach Deg Sir Gâr.



Un o nodweddion arbennig ein sir yw Ffordd Masnach Deg Sir Gâr, sef llwybr 25 milltir sy'n cysylltu trefi Rhydaman a Chaerfyrddin gan fynd drwy Llandeilo. Mae'r llwybr yn dilyn

prydfferthwch Dyffryn Tywi ac yn ymweld â nifer o siopau a busnesau Masnach Deg ar hyd y ffordd. Enillodd y Ffordd hon wobwr am yr ‘Ymgyrch Fwyaf Creadigol’ oddi wrth y Sefydliad Masnach Deg. Yn 2014 cafodd y llwybr ei ymestyn i Hendygywyn ar Daf. Bwriad y llwybr hwn a rhai tebyg iddo yng Nghymru yw annog cefnogwyr Masnach Deg i drefnu teithiau Masnach Deg o un lle Masnach Deg i'r llall.

Bellach mae gan Masnach Deg Sir Gâr gyfrif Trydar, sef <https://twitter.com/FTSirGar>

Yn 2009 y derbyniodd tref Caerfyrddin statws Masnach Deg yn dilyn ymgyrchu am bum mlynedd i annog busnesau a chymdeithasau drwy'r dref i roi cyfle i Fasnach Deg. Mae'r masnachwyr wedi bod yn frwdfrydig gyda'r syniad, ac mae amrywiaeth eang o gynnyrch a gwasanaethau ar gael.

Tair tref sy'n drefi Masnach Deg yn Sir Gâr ar hyn o bryd, sef Rhydaman, Caerfyrddin a Chastellnewydd Emlyn ac mae disgwyl i Lanelli (etholaeth seneddol) ac eraill ennill y statws cyn bo hir.

Adeg cynnal Cynhadledd Rhyngwladol Trefi Masnach Deg 2017 yn Saarbrücken, yr Almaen, nodwyd fod 38 o drefi Masnach Deg yng Nghymru, cyfanswm o 631 yn y Deyrnas Unedig a 2,000 ar draws y byd.

Mae'n gyffredin i fannau addoli yng Nghymru, fel y Priordy, ddod yn fannau Addoli Masnach Deg, gan addysgu pobl ynghylch pwrpas Masnach Deg a chefnogi a threfnu gweithgareddau Masnach Deg.

Mae llawer o ysgolion ar draws Cymru wedyn yn cefnogi Cymru Masnach Deg. Yn aml iawn maent yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod Pythefnos Masnach Deg yn flynyddol. Ac mae cystadleuaeth barddoniaeth Cymorth Cristnogol a Divine, cwmni siocled Masnach Deg, yn cynnig cyfle gwych i ysbrydoli disgyblion o wahanol oeddrannau.



Mae Cymru Masnach Deg wedi ymuno â Koolskools i ddarparu cyfle ardderchog i ysgolion yng Nghymru i ddysgu am gotwm

Masnach Deg ac i gyfnewid eu gwisgoedd ysgol i rai Masnach Deg.



Ysgol Llanllwni ym Mhencader, Sir Gâr ac Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd yw'r cyntaf i "gyfnewid" drwy'r fenter hon a gefnogir gan raglen Llywodraeth Cymru - Cymru o Blaid Affrica.

Gellid mynd ymlaen ac ymlaen am weithgareddau Masnach Deg a'r manteision mae'r cyfan yn ei gynnig. Mae Masnach Deg yn golygu · *prisiau gwell*, · *amodau gwaith gweddus*, *cynladwyedd lleol*, ac *amodau masnachu teg i ffermwyr a gweithwyr mewn gwledydd sy'n datblygu*. Mae Masnach Deg yn sicrhau bod ffermwyr, tyfwyr a chynhyrchwyr yn derbyn isafswm o bris teg am eu cynnyrch. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio ymlaen llaw ac adeiladu eu busnesau ac, yn hanfodol, mae'n ailgydbwyso system fasnach sydd wedi ei stacio'n anffafriol yn erbyn y cynhyrchydd. Nid pris yw popeth ychwaith ac mae Masnach Deg hefyd yn mynd i'r afael â diffyg cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles, addysg ac undebau.



Diolchwn fod Cymru ar flaen y gad yn hyrwyddo Masnach Deg. Hir y pery felly. Mae Masnach Deg Cymru yn rhan o bartneriaeth Hub Cymru Affrica. A phan gynhaliwyd Seremoni Wobrwy Cymru-Affrica yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym mis Ionawr 2018 cafodd grwpiau Masnach Deg eu cydnabod am eu gweithgarwch a'u harloesedd.

Diolch am weithgarwch y ddeng mlynedd diwethaf ond rhaid dyfalbarhau i geisio ehangu caffaeledd nwyddau â'r marc Masnach Deg diliys arnynt, yn enwedig mewn cyfnod pan mae enghreifftiau o gaethwasiaeth fodern a chamfanteisio ar weithwyr yn parhau i fodoli, ynghyd â gorfodaeth ar bobl fregus i weithio am ychydig neu ddim arian o gwbl - hyd yn oed yn y Deyrnas Unedig, gwaetha'r modd,



# CLWB PLANT CYDENWADOL GWEITHDY HAF

Am wybodaeth bellach ac er mwyn archebu lle  
cysylltwch â

Lleucu Edwards



|                |                                               |
|----------------|-----------------------------------------------|
| <b>Pwy?</b>    | <b>Blynnyddoedd 3,4,5 a 6</b>                 |
| <b>Dyddiad</b> | <b>25 Gorffennaf 2018</b>                     |
| <b>Ble?</b>    | <b>Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant</b>    |
| <b>Cost</b>    | <b>£20 (aelod) / £28.50 (os nad yn aelod)</b> |

## BARDDONI DRAMA DAWNSIO GWEITHDY BARDDONI

*Mae'r Clwb yn cael ei gynnal gan wirfoddolwyr o bith yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Presbyteriaid a'r Eglwys Apostolaidd. Yn cyrafod yn wythnosol yn Festri Capel y Tabernacl o 5 tan 6 ar nos Wener. Yr arweinwyr yw dau fyfyrwr ifanc o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, sef Rhys Hughes a Sion Jones.*



## ‘Agor y Gair’



**Cyfes Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg  
yng Nghaerfyrddin**

**Boreau Mercher 3,10,17,24 Hydref 2018**

**11.00 tan 12.00**

**Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin**

**Arweinwyr**

**Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James**

**Croeso cynnes iawn i bawb**

Beth am droi at  
Wefan yr Undeb?  
[www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org)





## Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

**AR** nos Lun, 8 Mai, noson hyfryd o wanwyn, ymgasglodd criw niferus ym mhentre braf Llandyfaelog ar gyfer cyfarfod olaf tymor y Gymdeithas Ddiwylliadol.

Bwriad yr ymweliad oedd gwranddo ar ŵr

adnabyddus yn y gymdeithas leol sef Geraint Roberts yn traddodi

hanes y llenor a'r diwygiwr

Methodistaidd, Peter Williams. Tywysodd

Geraint ni ar daith drwy'r pentref, yn

cynnwys ymweliad â'r eglwys, gan

gyfeirio at nifer o fannau diddorol

cysylltiedig â Peter Williams wrth

ddatgelu stori un o grefyddwyr mwyaf

lliwgar a phwysig Cymru.



Ganwyd Peter Williams yn Llansadurnen

ger Talacharn ar 15 Ionawr 1723, yn fab i

Owen ac Elisabeth Williams. Tra oedd yn

ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin

daeth dan ddylanwad y diwygiwr George

Whitfield ar ôl ei glywed yn pregethu ym

1743. Cafodd Peter Williams ei godi'n Eglwyswr, ond chafodd e ddim

ei ordeinio ac wrth dyfu'n hŷn daeth yn gynyddol dan ddylanwad

Methodistiaeth. Ymunodd â'r Methodistiaid ym 1747 ac wedi hynny

teithiodd ar hyd a lled Cymru'n pregethu.

Priododd â Mary Jenkins ym 1748 a buont yn byw yn Fferm y Pibwr

yng Nhwmffrwd. Ganwyd dau o blant iddynt – Eliezer (ym 1754) a

Peter Bailey Williams (ym 1763) Yn anffodus, bu rhaid iddynt adael y

cartref hwn oherwydd daliadau anghonfensiynol a chredoau

Methodistaidd Peter Williams. Yn ddiweddarach bu'r teulu'n byw mewn

tŷ o'r enw Gelli Lednais sy'n agos i Gapel Rama, y tu allan i

Landyfaelog. Clywyd stori amdano'n dod i gwrdd ag aelodau'r Eglwys

yn Llandyfaelog ar fore Sul wedi'r oedfa er mwyn ceisio dwyn perswâd

arnynt i ymuno yn ei "Dŷ Cwrdd" lle mae cartref o'r enw "Woodbine

Cottage" yn sefyll heddiw. Gyda llaw, rhyw ganllath o'r adeilad hwn y

saif Capel Methodistaidd a adeiladwyd gan Peter Williams ym 1780

ond a gaewyd ym 1980.





Diddorol yw nodi hefyd ei fod wedi sefydlu “Tai Cwrdd” ger Capel Penygraig yng Nghwmffrwd tua 1750, lle bu’n cynnal cyfarfodydd am rai blynyddoedd.

Peter Williams gododd capel cyntaf Heol Dŵr a’r cyntaf yn hanes y Methodistiaid yn nhref Caerfyrddin ym 1771. Flwyddyn cyn hynny, ym 1770, cyhoeddodd Feibl Cymraeg a adnabyddir fel Beibl Peter Williams gyda nodiadau ar bob pennod am bris fforddiadwy. Roedd yna farchnad amdano a phrin oedd e’n medru cynhyrchu digon i gwrdd â’r galw mawr. Argraffwyd y Beibl yng Nghaerfyrddin – y Beibl cyntaf i’w argraffu yng Nghymru. Gwerthwyd miloedd a bu’n Feibl poblogaidd am sawl cenhedlaeth.

Cyhoeddodd lawer o gyfrolau a golygodd fersiwn Cymraeg o Feibl



pocod John Canne ond achosodd rhai o’r nodiadau ar waelod y tudalennau dipyn o gynnwrf. Cafodd ei gyhuddo o gyhoeddi Sabeliaeth a arweiniodd at ei ddiarddel ym 1791 a’i atal rhag gwerthu Beibl bychan Canne ymhlith y Methodistiaid. Roedd yn ddiwedd trist i’w gyfraniad at ddatblygu Methodistiaeth ond effeithiodd hyn ddim ar boblogrwydd Beibl 1770. Cadwodd Williams hefyd afael ar gapel Heol Dŵr a bu’n pregethu yng Nghaerfyrddin tan

ei farw.

Bu farw ar 8 Awst 1796. Mae’n debyg iddo droi’n ôl at yr Eglwys cyn iddo farw. Aethom i ymweld â’i fedd ym mynwent Eglwys Llandyfaelog ac arni ddarn o Salm 55 oedd yn dangos sut y cafodd ei “fradychu” am ei safiad.



*Ond nid gelyn a'm gwawdiodd-  
gallwn oddef hynny;  
nid un om caseion a'm bychanodd-  
gallwn guddio rhag hwnnw;  
ond ti, fy nghydradd,  
fy nghydymaith, fy nghydnabod-  
buom mewn cyfeillach felys â'n gilydd,  
a chawsom gymdeithas yn nhŷ Duw.*

Ac felly y daeth noson arbennig o ddiddorol i ben a diolch o waelod calon i Geraint am ei anerchiad cynhwysfawr a difyrus a lwyddodd i gyffroi'r dychymyg a bodloni blas am gyfnod mor ddiddorol yn ein hanes.

**A PHA** well ffordd i gwblhau'r noson na phryd o fwyd blasus dros ben yn nhafarn clyd y pentref, Y Llew Coch.

## **SUL SBESIAL BORE SUL 8 GORFFENNAF**

Bydd Capeli Cymraeg Sir Gâr yn dod at ei gilydd i Ysgol Bro Dinefwr, Llandeilo fore Sul, Gorffennaf 8 i oedfa arbennig ar ein Sul Sbesial blynyddol. Bydd



yr oedfa'n dilyn y thema 'Y Môr' ac yn cychwyn am 10.30 a'r casgliad yn mynd at 'Water Aid'.

Y Parchg Derek Rees fydd yn arwain yr oedfa gyda chyfraniad gan Ysgol Sul Capel Newydd Llanddarog.

Paned am ddim i bawb a chyfle i brynu byrbrydiau o'r faniau bwyd.

Stondinau amrywiol a digon i hwyl i bawb o bob oed.  
Mynediad am ddim.

**Croeso i bawb**

## Y GYMDEITHAS YN LLANDYFAELOG



# Tudalen Ieuenctid@Priordy

MABOLGAMPAU MIC 2018

## ***Nos Fawrth 19 Mehefin***

Oedrannau Meithrin, Blwyddyn 1 a

Blwyddyn 2 i ddechrau am 6:00 y.h.

Blynnyddoedd 3-6 i ddechrau am 7:00 y.h.

Pob lwc i bawb!

Ydych chi wedi

rhoi'ch enw i

Luned?



## **Dyddiadau'r mis:**

Mehefin 3 -Ysgol Sul

Mehefin 10 - Dim Ysgol Sul

Mehefin 17 - Ysgol Sul

Mehefin 24 - Cwrdd Plant a Phobl Ifanc gyda  
Beti-Wyn a Derek Rees

Gorffennaf 1 - Parti Diwedd Tymor

Gorffennaf 8 - Sul Sbesial i bawb yn Ysgol Bro

Dinefwr am 10.30

# CWRS IEUENCTID COLEG Y BALA

## **Blynyddoedd 7-11** **Gorffennaf 30 i Awst 8**

Gweithgareddau awyr agored. Gemau tîm. Shmores wrth y tân. Noson sinema. Sioe dalent. Sialensau o bob math a digon o hwyl!

Gweithgareddau bywiog a chyfle i gyfarfod â phobl ifanc o'r un oed sy'n mwynhau ac yn frwdfrydig dros glywed y newyddion da am Iesu.

Cost yr wythnos £110, ac yna hanner Archebwch heddiw:

[colegybala.org](http://colegybala.org) [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk)

Ffôn: 01678 520 565



**Da iawn i bawb a fu'n  
cystadlu yn Eisteddfod yr  
Urdd!**

*Hwyl am y tro, Beti-Wyn*



## CWRDD PLANT CYMORTH CRISTNOGOL



cymorth  
cristnogol

cymorth  
cristnogol

cymorth  
cristnogol



**Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc  
Dydd Sul 20 Mai 2018**



**CYNHALIWYD** oedfa arbennig yma yn y Priordy ar fore Sul, 20 Mai, i ddathlu Wythnos Cymorth Cristnogol. Daeth pobl yn eu llu ynghyd i'r oedfa dan arweiniad plant a phobl ifanc y capel a'n Gweinidog.

Roedd sŵn hudolus y band i'w glywed ar y ffordd i mewn - Nikki wrth yr allweddellau ac yna, Jayne, Gareth, Elis, Sara a Phillip yn cyfeilio.

Estynnodd Beti-Wyn groeso calonogol i bawb a dechreuodd y gwasanaeth drwy ofyn i bawb gydlefaru Salm 100. Wedi hyn cafwyd y cyhoeddiadau gan Tim Hayes a gwnaethpwyd y casgliad gyda chymorth Iestyn, Osian, Lliwen a Gwern.

Roedd Jac Norgrove yn cymryd ei ran unigol gyntaf yn y capel a darllenodd emyn rhif 411 *O rwy'n caru'r Iesu* yn glir ac yn ddealladwy.

Cawsom gyflwyniad sensitif gan Anest a Ffion Norgrove ar y thema Cymorth Cristnogol. Hwytiau'n olrhain hanes Gwlad Haiti yn Ynysoedd y Caribî a sut mae Cymorth Cristnogol yni helpu pobl sydd wedi dioddef yno i ailadeiladu'u bywydau. Aeth Erin a Jona ymlaen i olrhain hanes merch fach o'r enw Zaza, un o drigolion Haiti, a oedd wedi colli to'i chartref pan ddaeth y glaw a'r corwyntoedd mawr. Aethant ymlaen i ddweud sut cafwyd cymorth gan Cymorth Cristnogol i ailgodi to'r tŷ. O flaen pawb yn eu seddi roedd darn o bapur



mewn siâp bricsen. Rhoddodd Erin gyfarwyddiadau i bob un ysgrifennu'i enw ar fricsen, er mwyn addo gwneud ei orau glas i gefnogi Cymorth Cristnogol a helpu pobl fel Zaza. Daeth Mali, Beca, Tristan, Steffan a Elliw o amgylch i gasglu'r briciau papur i gyfeiliant y band. Chris Lloyd a'r Dr Llinos oedd â'r dasg o ludo'r briciau ar ddarn o gerdyn siâp tŷ.

Cyhoeddodd Beti Wyn yr emyn nesaf sef 372 *Dwylo ffeind...* Yna, gwelsom fideo hynod o ddiddorol o'r enw *Cymorth y Ddaear* yn

dangos sut y goroesodd plant Haiti rymoedd natur. Roedd y fideo'n cynnwys hanes Zaza ac yn holi *Pwy sydd gryfaf - y ferch fach neu'r ddaeargryn?* Doedd dim amheuaeth! '*Siwperheros*' oedd plant bach Haiti yn ôl y fideo!. Arweiniodd hyn ymlaen at weddi '*Rho i ni Arglwydd Dduw weledigaeth...*' yna cydlefarodd pawb *Weddi'r Arglwydd*.

Yr emyn nesaf oedd rhif 800 *Un cam bach ar hyd y byd yr af*. Braf oedd gweld cymaint o blant yn cyfeilio ar yr offerynnau taro a tho'r capel wedi'i godi unwaith eto gyda'r gerddoriaeth a'r canu swynol.

Yn ei hanerchiad i'r plant, gofynnodd Beti-Wyn iddynt gau'u llygaid a dychmygu'u bod i ffwrdd ar wyliau mewn gwlad dramor. Tybed beth fyddent yn hoffi'i weld neu beth fyddent yn hiraethu amdano? Cawsom sawl awgrym gan y plant. Dywedodd lestyn y byddai'n 'hoffi gweld mam yn hapus ar y gwyliau'. Byddai Beti Wyn yn gweld eisiau'i chi, sef *Llew*, ac wedi dychwelyd byddai'n falch o weld ei thŷ a'r to'n gadarn uwch ei ben.

Roedd Beti-Wyn wedi bod yn brysur dros ben yn adeiladu tŷ pren a tho plastig, gan amlygu sgiliau gwaith saer arbennig. Pwy fuasai'n meddwl y byddai'n Gweinidog yn gallu adeiladu tŷ?! Dewiswyd Gwennan i gymryd rhan Zaza ac aeth i eistedd yn y tŷ. Cafodd pedwar plentyn arall gymryd rhan y corwynt - Jona, Ana, Beca ac Osian. Yn sydyn daeth y corwynt... a gyda hynny daeth sŵn rhuo anferthol. Gwnaeth y plant ystumiau glaw a gwynt yn chwyrlïo. Chwythodd to y tŷ i ffwrdd. Ond wedyn dyma'r gwirfoddolwyr yn ailgodi'r to.

Bu tŷ Zaza bum mis heb do. Sut cafodd do newydd? Doedd dim arian gyda theulu Zaza ond llwyddon nhw gyda help Cymorth Cristnogol, i gael y tŷ wedi'i atgyweirio. Mae Cymorth Cristnogol yn helpu i ariannu



gwaith mewn lleoedd fel Haiti, er enghraifft er mwyn ailosod toeon tai fel y bo pobl yn ddiogel yn eu cartrefi. On'd oes neges yma hefyd i ni werthfawrogi diogelwch ein cartrefi!

Tua diwedd y gwasanaeth dangosodd Chris Lloyd y tŷ cerdyn gorffenedig gyda briciau pawb wedi'u gludo'n dwi arno. Roedd hwn yn arwydd o'n dymuniad ni i gydweithio gyda Cymorth Cristnogol.

Cyhoeddodd Beti Wyn yr emyn olaf '*Dwylo ffeind oedd dwylo Iesu*'. Gorffennwyd y gwasanaeth gyda'r fendith.



**DIOLCH** i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth a hefyd i'r saer coed (dan gyfarwyddyd a llygad barcud yr arbenigwr Lyn Jones) am ei gwaith graenus.

## YSGOL HAF GWEINIDOGION YR ANNIBYNWYR

Coleg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant : 25-27 Mehefin 2018

Darlith Goffa

W.T. Pennar Davies ac R. Tudur Jones

Nos Lun, 25 Mehefin – 7.30 - Canolfan yr Halliwell

ALUN WYN BEVAN

'Y CAMPAU AC YSBRYD BRAWDOL'



*Estynnir gwahoddiad cynnes i chi ymuno â ni ar gyfer y ddarlith hon*

## Y TALWRN

Y GLÊR  
v  
Y FFOADURIAID

Y CŴPS  
v  
TIR IARLL

Pencadlys Heddlu Dyfed Powys  
Nos Fawrth 5 Mehefin 2018 am 7

*Rhad ac am ddim*

*Croeso i Bawb*

BBC Radio Cymru

## CYNHADLEDD FLYNYDDOL CRISTNOGAETH 21

Dydd Sadwrn 20 Mehefin 2018

10.00-2.15

Capel Salem, Treganna, Caerdydd

*Gwneud Synnwyr o'r Ysgrythur  
yng nghwmni'r*

Gwir Barchedig Jeffrey John

*Deon St Albans*

Tâl Mynediad - £10 ar y dydd



# PEN-BLWYDD TEARFUND YN 50 OED

**ELUSEN CRISTNOGOL** yw  
*Tearfund* a'r Gynghrair  
Efengylaidd a esgorodd arno.



Ym 1960, cafodd rhyw 40 miliwn o bobl yn fyd-eang eu gwneud yn ffoaduriaid o ganlyniad i ryfeloedd neu drychinebau. Arweiniodd at don o dosturi ymhlith Cristnogion yn y Deyrnas Unedig a anfonodd arian i'r Gynghrair Efengylaidd. Sefydlwyd cronfa, o'r enw EAR (the Evangelical Alliance Relief fund) / Cronfa Gymorth y Gynghrair Efengylaidd) i ddosbarthu'r cyllid i asiantaethau efengylaidd yn gofalu am anghenion y ffoaduriaid o gwmpas y byd. Parhaodd yr arian i lifo i'r gronfa hon drwy'r degawd.

Ym 1967, cafodd y cyn guraad George Hoffman ei gyflogi gan y Gynghrair i ddatblygu gwaith y gronfa. Ar **29 Mai 1968** cwrddodd George Hoffman ac aelodau Pwyllgor Cronfa Gymorth y Gynghrair Efengylaidd am y tro cyntaf. Roeddent yn benderfynol o briodi tosturi Cristnogol a gweithredu ymarferol a, gyda'i gilydd, sefydlon nhw weledigaeth yn gyflym ar gyfer y sefydliad newydd a'i alw'n **TEARFUND** (The Evangelical Alliance Relief Fund) / Cronfa Gymorth y Gynghrair Efengylaidd).



Enillodd Tearfund le amlwg ar y llwyfan Cristnogol gyda chymorth delweddau cryf, dylunio trawiadol a chyfathrebu heriog. Denwyd sylw neb llai na'r seren o Gristion **Cliff Richard**. Perfformiodd ddau gyngerdd yn Neuadd Albert ym 1969 i godi arian at Tearfund a dod yn gefnogwr hirdymor brwd,

Mudiad Cristnogol yw Tearfund sy'n credu'n gryf mewn rhoi gwerthoedd teyrnas Dduw ar waith – sef cariad, gobaith a thrawsnewid. Dyna

sy'n ysbrydoli a symbylu'r mudiad. Mae popeth a wna wedi'i seilio ar ei werthoedd Beiblaidd.

Yn ôl **Siôn Meredith**, un a fu'n swyddog amser llawn gyda *Tearfund* am dair blynedd ar ddeg hyd at 2006, bu newid mewn efengyliaeth yng nghyd-destun gwaith



elusennol yn ystod ei gyfnod gyda'r elusen,. Mae'n

esbonio fel y datblygodd pwyslais nad oedd yn bodoli gynt ar weithredu cymdeithasol o gymharu â phwyslais llwyr ar fywyd ysbrydol a natur addoli cyn hynny. Mae'n crisialu *Tearfund* fel a ganlyn:

*Mae Tearfund yn rhoi pwyslais ar ryddhau pobl o ddau fath o dlodi - tlodi materol ond hefyd, law yn llaw â hyn, tlodi ysbrydol. Caiff ei chyfrif yn elusen gyffrous i eglwysi a Christnogion fod yn rhan ohoni gan fod yr elfen Gristnogol radical yn hollol ganolog i'w chenhadaeth.*

Mae *Tearfund* yn credu'n gryf mewn plethu gweithredu cymdeithasol ag efengylu ac yn dal bod y ddeubeth yn anwahanadwy. Pery efengylu'n rhan hanfodol o weithgarwch y mudiad.

Wrth drafod pa mor hawdd oedd hi i rai yn *Tearfund* ymuno mewn ymgyrchoedd eciwmenaidd dywedodd Siôn y bu hynny'n gam newydd yn ystod ei gyfnod e ond bod y mudiad wedi gweld ei bod yn bwysig gweithio â mudiadau eraill ar faterion mor fawr â dyled rhyngwladol. Mae dod at wraidd pam mae pobl yn byw mewn tlodi yn y lle cyntaf yn frwydr sy'n llawer mwy nag y gall *Tearfund* ar ei ben ei hun ei brwydro.

A dyma ymateb *Tearfund* i'r cwestiwn 'Sut rydym yn gweithio?':

*Fel Cristnogion, rydym yn credu ei bod yn rhaid helpu pobl beth bynnag yw eu hil, eu crefydd, eu cenedl neu eu rhyw, ac na ddylid defnyddio cymorth i hybu safbwynt gwleidyddol na chrefyddol. Mae hyn yn hollbwysig i ni achos mae cariad Duw ar gyfer pawb a dyma'r math o 'waith datblygu' sy'n cael ei ddisgrifio yn y Beibl. Rydym yn dilyn y canllaw Beiblaidd bod helpu cymunedau mewn angen yn rhan ganolog o bwrpas eglwysi lleol, ble bynnag y maent.*

Mae Cristnogion sy'n rhannu'r un argyhoeddiadau, i ba bynnag enwad maent yn perthyn, yn gallu ymwneud â'i gilydd drwy fudiadau fel *Tearfund* lle mae rhai'n Fedyddwyr, yn Annibynwyr neu'n Anglicaniaid neu'n Gristnogion Efengylaidd mewn eglwysi efengylaidd annibynnol.

Bu cyfle i ni fel eglwysi yng Ngofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin, godi arian yn lled ddiweddar at gynllun 'Gefeillio Toiled' *Tearfund*. Drwy'r cynllun hwn, mae cyfle i wahanol eglwysi ac unigolion dalu am doiled glân i gymunedau sydd heb doiled o unrhyw fath ar hyn o bryd. Mae'n debyg fod cannoedd os nad miloedd o doiledau wedi'u darparu drwy'r cynllun hwn.



Mae *Tearfund Cymru*'n dod ag eglwysi ac unigolion ledled Cymru ynghyd i i dacio tlodi fel tîm ac fel cenedl. Yn *Cristion* (Mawrth / Ebrill 2018) mae teyrnged gan Siôn Meredith i'w ragflaenydd gyda'r mudiad a gollwyd ym mis Hydref 2017, sef y

**Dr Dewi Arwel Hughes**, Pontypridd (ond yn wreiddiol o'r Bala), Y Dr Dewi oedd cydlynnydd cyntaf *Tearfund* yng Nghymru ym 1987. Daeth yn Ymgynghorydd Diwinyddol *Tearfund* ym 1993 ac roedd yn awdur sawl cyfrol a gafodd gryn ddylanwad ar Gristnogion ledled Prydain a thu hwnt.



Arweinydd cyfredol Tîm Cymru yw **Fiona Michael** o Dyddewi yn Sir Benfro a hi sy'n gyfrifol hefyd am feithrin cysylltiadau allweddol gydag arweinwyr eglwysi a phrif gyfranwyr Cymru.



Mae *Tearfund* yn parhau i osod targedau uchelgeisiol i ryddhau pobl oddi wrth dlodi materol ac ysbrydol ac i drawsnewid eu bywydau mewn gwahanol rannau o'r byd.

Un o ymgyrchodd *Tearfund* sydd wedi bod yn cyfleu neges bwysig iawn dros y blynyddoedd yw Her Ffawd

Ffa, sef wythnos lle mae unigolion yn bwyta dim ond ffa a reis, er mwyn ceisio deall bywyd miloedd o bobl dlawd ar draws y byd. Eleni fe gafwyd cyhoeddusrwydd da ar gyfer yr ymgyrch wrth i Aelodau'r Cynulliad drafod yr ymgyrch ar lawr y Senedd yng Nghaerdydd i ddangos eu cefnogaeth i bobl heb ddigon o fwyd ac ymunodd nifer ohonynt â'r ymgyrch.



Fel rhan o'i ddathliadau pen-blwydd eleni mae'r mudiad yn olrhain ei weithgarwch a'i gyflawniadau ar y we mewn 50 o wledydd dros y blynyddoedd - deunydd sy'n werth ei ddarllen.

Cafwyd hefyd ddigwyddiad llwyddiannus dros ben yn Nhrefcyclo ac un arall yng Nghaerdydd yng nghwmni Côr Cambrensis, lle croesawyd Prif Weithredwr *Tearfund* i Gymru, Nigel Harris. Bydd digwyddiad arall yn Llandudno ym mis Hydref. Yn y cyfamser mae'r cynlluniau ar y gweill i gynnal seremoni arbennig i blannu croesau mawr fel rhan o ddathliadau'r Jiwbiil.

**DYMUNWN** ben-blwydd hapus iawn i *Tearfund*!



## CYMRU-OHIO

**T**ybed faint wyddoch chi am sefydlu un o gymunedau Cymreig enwocaf America ym 1818? Dyna pryd y mentrodd chwe theulu o ardal Cilcennin yng Ngheredigion, dan arweiniad John Jones, tafarnwr y Ship ym mhentref Pennant, ar draws Môr Iwerydd ac ymgartrefu yn ne ddwyrain Ohio.

Roedd tlodi dybryd yng nghefn gwlad Cymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny pan oedd cynnydd yn y boblogaeth. Roedd yr esgid fach yn gwasgu'n ddifrifol ar y tenant-fffermwyr bach tlawd a bwlch enfawr rhyngddynt hwy, capelwyr Cymraeg eu hiaith, a'r meistri tir cyfoethog, Saesneg eu hiaith ac aelodau yn Eglwys Loegr. A thorri'n rhydd oddi wrth y sefyllfa hon oedd bwriad y teuluoedd o Gilcennin a dod o hyd i safonau bywyd gwell a hefyd ryddid crefyddol yn ne ddwyrain Ohio,



Dechreuodd y teuluoedd o Gilcennin ar eu taith tua 1 Ebrill 1818, gan hwylio o Aberaeron mewn tair llong fach i Lerpwl ac yna i America – mordaith go helbulus, mae'n debyg, oherwydd y tywydd garw ac amodau'r llong. Ychydig ddilynodd ôl eu traed am beth amser ond o'r tridegau ymlaen daeth mwy i siroedd Jackson a Gallia. Mae'n debyg bod tua 2,500 i 3,000 o deuluoedd wedi gadael Ceredigion rhwng 1835 a 1850 i ffurfio '*Ceredigion Bach yn ne ddwyrain Ohio*'. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg credir bod cymuned o 4,000 - 6,000 o Gymry yno.



Yn ôl yn Aberaeron ym 1979, plannwyd coeden dderw yn Sgwâr Alban yn y dref er cof am y rhai a ymfudodd i de-

ddwyrain Ohio. Ymhlith y Cymry a ymgartrefodd yn Ohio oedd hynafiaid y gantores Gwawr Edwards a'r newyddiadurwr Huw Edwards.



A throi at 2018, bydd y dathlu yng Nghymru'n digwydd rhwng 22-30 Mehefin, ac yn cloi gyda Chyngerdd Cymru-Ohio, Cae Sgwâr, Aberaeron ddiwedd yr wythnos.

**M**ae llawer yn gwybod am yr ymfudo i Batagonia ond llai, o bosib, am y fenter i Ohio. Ffynhonnell dda ar gyfer dysgu mwy am yr ymfudo hwnnw yw Gwefan Prosiect Cymru-Ohio (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) ac mae mwy am y dathlu ar Wefan Ohio-Cymru 1818. Trowch atynt os cewch gyfle.



### **DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL (DCDC)**

**Tybed faint ohonoch sydd wedi sylw ar y Rhestr Gydnabod wrth iddi wibio hebio ar y sgrîn fach ar ddiwedd y rhaglen Dechrau Canu, Dechrau Canmol ar S4C?**

**Efallai i chi weld dan y pennawd Cerddoriaeth Agoriadol enwau Christopher Tin a Tudur Dylan Jones.**



**Cyfansoddwr Americanaidd yw Christopher Chiyan Tin a cherddorfaol a chorawl yw'i waith yn bennaf. Roedd yn un o feirniaid Côr Cymru ar S4C yn 2017. Enw'i ddarn ar gyfer DCDC yw *Canmol*.**

**Cyfansoddwr y geiriau yw Tudur Dylan Jones. A dyma ddarn Dylan:**

**Canwn bawb yn ddi-wahân,  
Dathlwn a chlodforwn,  
Down ynghyd ac estyn llaw,  
a chanmolwn.**



**AR Y WE: [www.priordy.org](http://www.priordy.org) (yn cynnwys Papur Priordy)**



# CHWA O AWYR IACH

**MAE'N** ddiwedd tymor unwaith eto yn achos rhai o'n prif chwaraeon. Mae'n gyfnod pan mae rhai timau'n dathlu, fel Gleision Caerdydd, Clwb Rygbi Merthyr a Chlwb Pêl-droed Caerdydd, ac eraill, fel Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe, yn galaru. I fyny ac i lawr yw hi yn hanes timau chwaraeon o



flwyddyn i flwyddyn. Daw ei dro i bawb, medden nhw!



Diwedd y gân yw'r geiniog wrth gloriannu llwyddiant a methiant ar bentymor ym myd y campau'n aml iawn. Diffyg buddsoddi neu ddim digon ohono yw'r bwgan yn ôl rhai! Ariangarwch a thrachwant a diffyg teyrngarwch yn ôl

eraill! Ac felly mae'r seiadu a'r dadlau'n mynd ymlaen ac ymlaen wrth i'r pwnditiaid ddoethinebu ar y cyfryngau torfol.

Chwa o awyr iach ynghanol hyn oll yw darllen ychydig am hynt a helynt Clwb Pêl-droed Tref Luton y dyddiau hyn. Mae'r clwb newydd ennill dyrchafiad i Adran 1 y Gynghrair Bêl-droed yn Lloegr am y tro cyntaf mewn degawd – diolch i Gymro!

Ganed Nathan Jones ym Mlaenrhondda ym 1973.



Yn bêl-droediwr medrus, chwaraeodd dros nifer o glybiau ar lefelau cymharol isel yng Nghymru, Lloegr a Sbaen, cyn troi at hyfforddi a chynorthwyo a chael ei benodi'n rheolwr Clwb Pêl-droed Tref Luton. Ond gŵr ychydig yn wahanol i'r norm yw hwn! Fe'i codwyd ar aelwyd grefyddol ac mae Cristnogaeth yn hollbwysig iddo. Meddai mewn cyfweliad:

**BLAENRHONDDA**

*Mewn pêl-droed mae llawer o demtasiynau. Mae fy ffydd wedi fy ngalluogi i rodio'r llwybr cul neu ddychwelyd iddo os ydw i wedi crwydro. Mae'n rhoi cryfder a ffydd imi geisio gwneud pethau ac i wneud fy ngorau glas. Y nesaf peth at amhosibl yw cadw grŵp o bêl-droedwyr egotistaidd a llawn testosteron yn hapus. Rhaid i mi ganobwyntio felly ar ennill eu parch. Os ydw i'n trin rhywrai'n annheg, dw i ddim yn gallu gofyn iddyn nhw ymateb i mi. Mae Cristnogaeth yn fy ngalluogi i fod yn onest, cael cydbwysedd a bod yn rheolwr sy'n cael ei barchu os nad ei hoffi.*

Mae Nathan hefyd yn credu bod chwaraewyr tramor sy'n mynegi'u ffydd Gristnogol yn agored wedi bod yn gyfrwng i gynyddu'i derbyniad: Meddai:



*Does dim stigma yn ein dyddiau ni, a hynny, mi dybiaf, i raddau helaeth oherwydd mewnlifiad chwaraewyr a phobl eraill o dramor – maen nhw'n llawer mwy agored ynghylch eu credo Cristionogol,*

**LLONGYFARCHIADAU** i Nathan ar ei lwyddiant y tymor hwn a diolch iddo am ei ffresni! A gyda llaw, mae'n berson dwyieithog – ond Saesneg a Sbaeneg yw'r ieithoedd yn ei achos e!

### Newid yn y Ddeddf Diogelwch Data

Yn sgil y newid yn y Ddeddf uchod a ddaeth i rym 24 Mai 2018,, diolch yn fawr iawn i bawb a ymatebodd i'r cais am gael defnyddio'ch cyfeiriad ebost.



Mae mwy eto i drafod yn sgil y newidiadau i'r Ddeddf. Cawn gyfle i wneud hynny gyda'n gilydd yn y dyfodol agos.

### Beti-Wyn

### CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher, 20 Mehefin 2018 am 7 yn y Festri

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda*



### MUNUD I FEDDWL

Bydd y Gweinidog ar *Munud i Feddwl* ar raglen y Post Cyntaf ar Radio Cymru bob bore Mawrth am 7.20 yn ystod mis Mehefin



### DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY

DYDD IAU, 21 MEHEFIN 2018

*Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11  
Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys*



# **ELUSEN MIS MEHEFIN**

## **BANC BWYD CAERFYRDDIN**



**Dyma restr o'r rhoddion y mae modd eu cyflwyno i Fanc Bwyd Caerfyrddin os ydych yn dymuno:**

**Llysiau mewn tun , Ffrwythau mewn tun  
Cig mewn tun, Sudd oren / afal  
Grawnfwyd, Reis, Siwgr, Coffi, Te  
Bisgedi, Llaeth UHT**

**Byddwn yn casglu yn ystod y pedwar Sul ym mis Mehefin. Bydd blwch yng nghyntedd y capel i dderbyn eich cyfraniadau.**

**Diolch o flaen llaw am eich cefnogaeth.**

**OEDFA HAF CARTREF PLAS-Y-DDERWEN**  
*gyda'n*  
**GWEINIDOG**


**Bore Gwener, 22 Mehefin 2018 am 11 o'r gloch**



**Y TYST**  
**50c y rhifyn!**  
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**



# CROESAWU DISGYBLION BLWYDDYN 7 YSGOL BRO MYRDDIN I'R CAPEL I DDYSGU AM FEDYDD



# PERERINDOD YR OFALAETH

i

DYDDEWI

a

PHENCAER, ABERGWAUN, SIR BENFRO

Dydd Sul 10 Mehefin 2018



Bydd y bws yn gadael y mannau hyn yn brydlon yn y bore

9.45 – Hel y Prior    9.50 – Heol Awst    10.00 – Cana

10.05 – Bancyfelin

11.15 – 1.15 – Tyddewi

*Cyfle am wâc, paned a rhywbeth bach i'w fwyta / brechdanau (pawb i wneud trefniadau eu hunain)*

2.00 – Fferm Bristgarn, Pencaer i glywed hanes hen gloc tad-cu

o ddyddiau glaniad y Ffrancod

2.30 - Capel Harmoni, Pencaer

Oedfa gyda'r Parchgn. Geraint Morse a Beti-Wyn

5.30-Swper yng Ngwesty Nant-y-ffin

Pris y diwrnod (yn cynnwys swper) - £21

*Enwau ar y daflen yn y cyntedd, os gwelwch yn dda*



## CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN CYRDDAU CHWARTER 2018



|                                          |                       |
|------------------------------------------|-----------------------|
|                                          |                       |
| Dydd Iau 13 Medi 2018 (4 a 7)            | Siloam, Pont-ar-gothi |
|                                          |                       |
| Dydd Iau 29 Tachwedd 2018 (10.30 a 1.30) | Trinity, Llanboidy    |



## MIC –DYDDIADAU I'W NODI



|                    |                         |                        |
|--------------------|-------------------------|------------------------|
| Mabolgampau dan do | Gorllewin y Sir         | 19 Mehefin             |
| Mabolgampau dan do | Rowndiau Terfynol y Sir | 11 Gorffennaf          |
| Sul Sbesial        | Ysgol Bro Dinefwr       | 8 Gorffennaf (10.30)   |
| Cwrs Ieuenctid     | Coleg y Bala            | 30 Gorffennaf – 3 Awst |
| Souled Out         | Coleg y Bala            | 18-23 Awst             |

**Carys Morgans, Swyddog  
Cyswllt y Gefeillio  
yn cyflwyno...  
NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON**



**PEN-BLWYDD YR ACHOS YN 156  
MLWYDD OED**

Ar benblwydd yr achos cynhelir ein Gŵyl Bregethu . Eleni gwahoddwy y Parch Guto Prys ap Gwynfor i arwain yr addoliad . Cafwyd dwy oedfa fendithiol a neges heriol gan Guto. Aeth rhai o aelodau'r eglwys i Westy Seiont Manor Llanrug am ginio'r Sul . 'Roedd hwn yn dda hefyd ond ddim cystal â'r brgeth gafwyd yn y bore !



**YN DILYN OEDFA'R  
PRYNHAWN CAFWYD  
TE BACH YN Y  
FESTRI I DDWEUD  
DIOLCH I'N  
GOFALWYR SEF  
Richard ac Edwina  
Parry.** Roedd y ddau wedi bod yn ofalwyr er 1995 . Cafwyd cacen arbennig a chyflwynwyd rhodd ariannol ar ran yr

eglwys iddynt

**WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL**

Bu nifer o aelodau'r eglwys yn casglu o ddrws i ddrws . Nos Fercher trefnwyd Cwis, Cracyr a Caws yn Noddfa .  
'Roedd angen 5 aelod i bob tîm ac roedd 8 tîm o'r eglwysi yn bresennol a phawb wedi dod â'u cefnogwyr ! Ar y prynhawn Su Idilynol cynhaliwyd gwasanaeth Cristnogol yng nghapel Ebeneser





# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



| Mehefin     |           | Gorffennaf  |           |
|-------------|-----------|-------------|-----------|
| Gofalwr     | Gwresogwr | Gofalwr     | Gwresogwr |
| David Lloyd |           | David Lloyd |           |



## BLODAU



| Mehefin | 3  |                           | Gorffennaf | 1  |              |
|---------|----|---------------------------|------------|----|--------------|
|         | 10 | Meinir Jones              |            | 8  | Gill Owens   |
|         | 17 |                           |            | 15 |              |
|         | 24 | Myfanwy Jones (Abergwili) |            | 22 | Eirlys Jones |
|         |    |                           |            | 29 |              |



## PARATOI'R BWRDD CYMUN



|            |   |      |                                |
|------------|---|------|--------------------------------|
| Mehefin    | 3 | Nos  | Miriam Wyrwoll a Carys Morgans |
| Gorffennaf | 1 | Bore | Alwen Owen a Fiona Elias       |



## YMWELWYR



|                   |                                              |
|-------------------|----------------------------------------------|
| Mai / Mehefin     | Glenys Thomas, Eira Phillips ac Eira Jenkins |
| Gorffennaf / Awst | Nansi a Desmond Hayes                        |



## DARLLENWYR



| Mehefin | 3  | Delyth Gwawr Davies | Gorffennaf | 1  | Luned Thomas  |
|---------|----|---------------------|------------|----|---------------|
|         | 10 |                     |            | 8  |               |
|         | 17 | Adrian Evans        |            | 15 | Sulwyn Thomas |
|         | 24 |                     |            | 22 | Eirlys Jones  |
|         |    |                     |            | 29 | Glenys Thomas |



## CYHOEDDWYR



|         |                |            |              |
|---------|----------------|------------|--------------|
| Mehefin | Catrin H Jones | Gorffennaf | Eirlys Jones |
|---------|----------------|------------|--------------|



**EIN LLONGYFARCHIADAU** mawr i Alwyn a Mari Jones ar enedigaeth eu gorwyr cyntaf, Logan, ar 2 Mai 2018, a mab i Angharad a James Togneri. Angharad yw merch hynaf Gareth, mab Alwyn a Mari. Croeso mawr i'r newyddanedig!



Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth, sef, Tina Charles, David Lloyd, Wyn Tegryn Evans, Harry Evans (brawd Dan Evans sy'n addoli'n gyson gyda ni) a, Nest Gwilym, merch y Parchedig W J a Gwenda Edwards, ein cyn-weinidog a'i briod. Dymunwn yn dda iddynt i gyd a phawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.



Bu arddangosfa o waith diweddar yr arlunydd Wynne Jenkins yn Oriel yr Attic, Abertawe, yn ystod y mis diwethaf a'r hanes wedi bod yn y **Western Mail**. Casgliad diddorol dros ben.



Mae'r tymor newydd ar ei anterth i gricedwyr y Priordy. Da clywed am lwyddiant Tomos Axford (Dan 10), Jac Thomas (Dan 11) a Carwyn Axford (Dan 13) yn cynrychioli Sir Gâr a Gruffudd Owen (Dan 11) yn chwarae dros Sir Gâr a Chymru. Pob hwy! i'r bechgyn a gobeithio hefyd y cânt hwythau, fel ninnau, eu dogn o dywydd criced!



Ar **Radio Cymru** bu Rebecca Hayes yn adolygu'r Papurau Sul ar raglen **Dewi Llwyd ar Fore Sul**. Bu hefyd yn cyflwyno **Bore Cothi** yn lle Siân Cothi.



Clywyd Cymanfa Fawr Pantycelyn yn y Priordy ar **Ganiadaeth y Cysegr** ar **Radio Cymru**. Cynhaliwyd y Gymanfa i ddathlu trichanmlwyddiant geni'r Pêr Ganiedydd dan arweiniad John S Davies gyda Meirion Wynn Jones wrth yr organ ac yn cynnwys eitemau gan Elin Llwyd, Mared a Sara. Cafwyd hefyd ar **Radio Cymru** ailddarllediad o **Oedfa'r Bore** gyda'n Gweinidog a Lucy, Steffan, Carwyn a Lleucu'n darllen.



Bu Elin Llwyd yn cymryd rhan yn **Estron**, sef cynhyrchiad gan **Theatr Genedlaethol Cymru** mewn cydweithrediad ag **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** a **Theatrau Sir Gâr**. Bu'r ddrama, o waith

Hefin Robinson, ar daith ledled Cymru rhwng 19 Ebrill a 19 Mai. Ond meddyliwch am hyn. Galwyd Elin ar y funud olaf i gymryd lle Ceri Elen yn y cast o ddau a chafodd bedwar niwrnod yn unig i feistrolï'i rhan! Tipyn o gamp! Y cymeriad arall



yn y ddrama, gyda llaw, oedd Gareth Ellis, mab Nigel Davies Swyddog Plant / leuenctid **Menter leuenctid Cristnogol (MIC)** a Siân, ei wraig.



Yng **Ngŵyl Lyfrau Caerfyrddin [Bedwen Lyfrau]** yn yr Atom bu John Phillips [cyn Gyfarwyddwr Addysg a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Dyfed] yn trafod ei hunangofiant **Agor Cloriau** yng nghwmni Sulwyn Thomas a chafwyd orig hwyliog a dadlennol.

**A LLONGYFARCHIADAU** mawr i Elis Roderick ami ennill un o wobrwyon Cystadleuaeth Barddoniaeth **Siocled Divine** a **Chymorth Cristnogol** sy'n chwarae rhan mor bwysig yn hyrwyddo **Masnach Deg**. Da iawn yn wir!

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Gorffennaf / Awst i'n  
Gweinidog neu Tina Charles

### CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Norah Hughes ar golli'i brawd, sef Y Parchedig D J Jones, a fu'n Weinidog gyda'r Presbyteriaid am flynyddoedd lawer. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Nora.

Tristwch oedd clywed am golli Alison Evans, merch Ann Griffiths a nith i Ifor Evans, a hithau ym mlodau'i bywyd. A daeth ergyd pellach i'r teulu o lwerddon y tro hwn, lle collwyd Susan Ronayne, nith i Ann ac Ifor a merch i'w diweddar chwaer hynaf, Jenny Ronan.

Daeth y newyddion am golli Michael Waterworth, tad Martin a'i briod Lowri a thad-cu Rhys, Lisa a Siôn ac estynnwn ein cydymdeimlad â hwy a'r teulu ehangach yn eu hiraeth.

Rydym hefyd yn cydymdeimlo â Bronwen a Henry Wilkins ar golli brawd Bronwen, sef Alun Evans. Cofiw'n am ei briod Marlene a'u plant Emma ac Iwan a'r teulu cyfan yn y golled hon.

### DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip a Gladwen Meredith am y lluniau'r mis hwn






# Y SULLIADUR



| Mehefin | 3  | Bore<br>Hwyr          | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog                                                                                                                                        | Cymun |
|---------|----|-----------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|
|         | 10 | Bore<br>Pnawn<br>Hwyr | Pererindod yr Ofalaeth. Gweler y tu mewn                                                                                                                              |       |
|         | 17 | Bore<br>Pnawn         | Y Parchedig Jill-Hailey Harries<br>Oedfa i'r Ofalaeth yng Ngana am 2 gyda'r<br>Parchedig Jill-Hailey Harries                                                          |       |
|         | 24 | Bore<br><br>Pnawn     | Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog<br>pan fydd Cymdeithas Dydd yr Arglwydd yn<br>ymuno â ni<br>Gŵyl Hirddydd Haf ym Mharc y Dref am 4.30<br>gyda'n Gweinidog |       |

| Gorffennaf | 1  | Bore<br><br>Hwyr | Gwasanaeth Dinesig y Maer, Y Cyngorydd<br>Emlyn Schiavone, gyda'n Gweinidog, Caplan y<br>Maer<br>Ein Gweinidog | Cymun |
|------------|----|------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|
|            | 8  | Bore             | Sul Sbsial - Manylion y tu mewn                                                                                |       |
|            | 15 | Bore<br>Pnawn    | Y Parchedig Dyfrig Rees<br>Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 2 gyda'r<br>Parchedig Dyfrig Rees               |       |
|            | 22 | Bore             | Tudur Dylan Jones                                                                                              |       |
|            | 29 | Bore             | Ein Gweinidog Pererindod o ardal Crymch /<br>Blaen-ffos yn ymuno â ni yn yr oedfa                              |       |

| CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC                                                             |    |          |    |            |    |    |    |    |
|---------------------------------------------------------------------------------------------|----|----------|----|------------|----|----|----|----|
| ✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant<br>SS – Sul Sbsial |    |          |    |            |    |    |    |    |
| Mehefin                                                                                     |    |          |    | Gorffennaf |    |    |    |    |
| 3                                                                                           | 10 | 17       | 24 | 1          | 8  | 15 | 20 | 29 |
| ✓<br>PIP                                                                                    | -  | ✓<br>PIP | CP | ✓          | SS | -  | -  | -  |



COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R  
BLWCH TOPIAU POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD